WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2015-16 – **Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru**

Blwyddyn yr archwiliad: 2015-16

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2016

Cyfeirnod dogfen: 636A2016

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb yng nghyd-destun unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na gweithiwr arall yn ei swyddogaeth unigol, nac am unrhyw drydydd parti.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir eich sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn amlinellu'r camau y dylai awdurdodau cyhoeddus eu cymryd wrth ymdrin ag ymholiadau, yn cynnwys ymgynghori gyda thrydydd partïon. Yng nghyd-destun y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ail-ddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru at swyddog.gwybodaeht@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Ann-Marie Harkin, Matthew Coe, Andy Bruce a Gareth Lucey.

# Cynnwys


Crynodeb o'r Adroddiad

Cyflwyniad 4

Cyhoeddais farn ddiamod am ddatganiadau ariannol 2015-16 Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl a Chronfa Bensiwn yr Heddlu 4

Rwy'n fodlon bod gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol yn eu lle yn ystod y flwyddyn i sicrhau y defnyddir adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol 6

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau y cwblhawyd archwiliad o'r cyfrifon ar 30 Medi 2016 10

Atodiadau

Atodiad 1 – meini prawf i asesu trefniadau ar gyfer sicrhau y defnyddir adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol 11

Atodiad 2 – risgiau sylweddol wrth archwilio 12

# Crynodeb o’r adroddiad

## Cyflwyniad

1 Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o’r gwaith archwilio a gyflawnwyd parthed Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru yn ystod 2016.

2 Mae’r gwaith a wnaethpwyd gennyf yn caniatáu imi gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) mewn perthynas ag archwilio cyfrifon a threfniadau unigol y ddwy gorfforaeth i sicrhau eu bod yn defnyddio adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol.

3 Ceir mwy o fanylion ar agweddau penodol fy archwiliad yn yr adroddiadau unigol a gyhoeddais yn ystod y flwyddyn. Mae fy nhîm wedi trafod a chytuno’r adroddiadau hyn gyda swyddogion a’u cyflwyno i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl a’r Cydbwyllgor Archwilio. Mae fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2016 yn amlinellu’r risgiau wrth archwilio datganiadau ariannol ar gyfer 2016, ac mae Atodiad 2 yn dangos sut y gwnaethom ddelio â’r rhain fel rhan o’r archwiliad.

## Cyhoeddais farn ddiamod am ddatganiadau ariannol 2015-16 Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl a Chronfa Bensiwn yr Heddlu

4 Mae’r datganiadau ariannol yn fodd allweddol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru (y Comisiynydd) a Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru (y Prif Gwnstabl) roi cyfrif o’u stiwardiaeth o’r adnoddau sydd ar gael iddynt a’u perfformiad ariannol wrth ddefnyddio’r adnoddau hynny. Mae ganddynt gyfrifoldeb i:

- roi systemau rheoli mewnol yn eu lle i sicrhau cysondeb a chyfreithlondeb trafodion;
- cadw cofnodion cyfrifo priodol; a
- pharatoi datganiadau ariannol yn unol â gofynion perthnasol.

5 Mae gofyn imi archwilio’r datganiadau ariannol a chyhoeddi adroddiadau archwilio sy’n cynnwys barn os yw’r datganiadau ariannol yn cyflwyno darlun ‘gwir a theg’ o sefyllfa ariannol y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a Chronfa Bensiwn yr Heddlu. Mae’r adroddiadau hefyd yn cyflwyno fy marn os yw’r datganiadau ariannol wedi eu paratoi’n gywir, yn unol â’r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16 a rheoliadau perthnasol.

6 Ar 30 Medi 2016, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiadau archwilio diamod ar ddatganiadau ariannol y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a Chronfa Bensiwn yr Heddlu.

7 Arwyddwyd y datganiadau ariannol drafft gan Brif Swyddogion Cyllid y Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl ar 30 Mehefin 2016, yn unol â’r terfyn amser statudol. Fe dderbyniom y datganiadau ariannol drafft hyn am y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 ar 6 Gorffennaf 2016, yn unol â’r amserlen archwilio gytûn.

8 Roedd safon y cyfrifon drafft a gyflwynwyd i’w harchwilio’n welliant pellach ar y flwyddyn flaenorol, oedd yn adlewyrchu gwaith pellach ar ran rheolwyr a staff fel rhan o’r broses o gau’r cyfrifon am y flwyddyn. Cafwyd bod y wybodaeth a’r papurau gwaith a ddarparwyd i ategu’r cyfrifon yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy, ac yn rhwydd i’w deall. Daethom i’r casgliad bod polisïau ac amcangyfrifon cyfrifo’n briodol a bod datgeliadau datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg a chlir. Ni chafwyd unrhyw anawsterau o bwys yn ystod yr archwiliad. Fe dderbyniom wybodaeth mewn modd amserol a chynorthwyol ac ni chyfyngwyd ar ein gwaith mewn unrhyw fodd.

9 Mae’r Safon Ryngwladol ar Archwilio (ISA) 260 yn mynnu y dylai archwilwyr adrodd ar ganfyddiadau’r archwiliad o’r datganiadau ariannol i’r ‘rheini sy’n gyfrifol am reoli’. Cyflwynwyd Adroddiad yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol i’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl, ac i’r Cydbwyllgor Archwilio, yn eu cyfarfod ar 16 Medi 2016. Ceir crynodeb o’r canfyddiadau yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: Adroddiad yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol i’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl

| Gofyniad adrodd | Canfyddiadau’r archwiliad |
|---|---|
| Addasiadau i adroddiad yr archwilydd. | Nid oedd angen unrhyw addasiadau, cyflwynwyd barn ddiamod. |
| Camddywediadau heb eu haddasu. | Dim camddywediadau heb eu cywiro. |
| Barn am agweddau ansoddol arferion cyfrifo ac adrodd ariannol yr endid. | Ni adroddwyd am unrhyw faterion. |
| Materion y gohebwyd â’r rheolwyr yn eu cylch. | Ni ohebwyd â rheolwyr ar unrhyw faterion. |
| Materion sy’n berthnasol i oruchwylio’r broses adrodd ariannol. | Ni adroddwyd am unrhyw faterion. |
| Gwendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol. | Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol. |
| Materion sy’n ofynion penodol gan safonau archwilio eraill i’w cyfathrebu i’r rheini sy’n gyfrifol am reoli. | Ni adroddwyd am unrhyw faterion. |

# Rwy’n fodlon bod gan y Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl drefniadau priodol yn eu lle yn ystod y flwyddyn i sicrhau y defnyddir adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol

10 Mae fy ystyriaeth o drefniadau’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl i sicrhau defnydd darbodus, effeithiol ac effeithlon yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaethpwyd ar y cyfrifon. Rwyf hefyd wedi dibynnu ar:

- ganlyniadau’r gwaith archwilio a wnaethpwyd ar systemau rheoli mewnol y Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl, fel yr adroddwyd amdanynt yn y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol;
- canlyniadau’r gwaith a wnaethpwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, e.e. Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC), ble roedd yn berthnasol i fy nghyfrifoldebau i; ac
- unrhyw waith arall, yn cynnwys o Archwiliadau Mewnol, yr oeddwn yn credu oedd yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni fy nyletswyddau.

11 At ddibenion fy ngwaith, fe werthusais systemau’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl yn erbyn nifer o gwestiynau. Amlinellir y drefn yma’n fanwl yn Atodiad 1. Ar gyfer pob cwestiwn, rwy’n ystyried os oes bylchau yn y trefniadau y disgwylir iddynt fod yn eu lle, a phwysigrwydd y bylchau hynny.

## Mae gan y Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl fframweithiau cadarn yn eu lle i bennu, ymgynghori ar a monitro perfformiad yn erbyn blaenoriaethau ac amcanion strategol

12 Cawsom fod y Comisiynydd wedi amlinellu ei flaenoriaethau a’i amcanion yn gwbl eglur. Roedd Cynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu 2015-18 yn ei le eisoes at y diben hwn, gyda chyflwyniad Cynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu 2016-21 newydd ym mis Ionawr 2016. Caiff y Cynlluniau hyn eu hategu ymhellach gan Gynllun Cyflawni’r Prif Gwnstabl.

13 Cyflawnwyd y gwaith o adolygu a monitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau ac amcanion y Comisiynydd gan y Cyd-grŵp Cynllunio a Pherfformiad o dan y Cynllun ar gyfer 2015-18 oedd, yn ei dro, yn adrodd i Fwrdd Strategol y Comisiynydd. Fodd bynnag, o fis Ionawr 2016 sefydlwyd pum Bwrdd ‘Efydd’ (pob un â chynrychiolaeth o swyddfeydd y Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl) i adolygu a monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a geir yng Nghynllun diwygiedig 2016-21. Mae’r trefniadau hyn wedi sicrhau lefel priodol o graffu a herio’n ystod y flwyddyn.

14 Mae'r Comisiynydd wedi ymgynghori'n eang ar y blaenoriaethau i'w cynnwys yn y ddau Gynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu, yn ogystal â phrosiectau allweddol eraill, fel y Cynllun Datrysiad Cymunedol diweddar. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cwrdd yn rheolaidd gydag Arweinyddion a Phrif Weithredwyr y saith Awdurdod Lleol sydd o fewn ffiniau Heddlu De Cymru, a hefyd yn ymgysylltu â'r cyhoedd yn gyffredinol, gyda Chyd-dîm Ymgynghori yn ei le i reoli'r gwaith yma. Mae hyn yn arwydd o lefel gref o ymgysylltu â phartneriaid a'r cyhoedd yn gyffredinol.

15 Bwrdd Strategol y Comisiynydd a Grŵp Aur y Prif Gwnstabl sy'n gyfrifol am fonitro perfformiad gweithredol yr Heddlu. Mae hyn yn cynnwys monitro perfformiad ariannol a chynlluniau arbedion gwerth am arian. Fel y nodwyd uchod, mae'r trefniadau llywodraethu o dan y lefel yma wedi newid ers Ionawr 2016. Mae'r Panel Heddlu a Throseddu annibynnol (y Panel) yn derbyn a thrafod adroddiadau perfformiad ac alldro rheolaidd ar ystod eang o faterion gweithredol. Mae'r Panel hefyd yn craffu ar bapurau strategaeth a gynhyrchir gan y Comisiynydd a chyflwyno sylwadau arnynt.

16 Mae'r systemau llywodraethu a rheoli mewnol wedi datblygu yn 2015-16. Mae'r Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol (a adolygir yn flynyddol) yn amlinellu Dilysnodau'r Berthynas rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, cynlluniau dirprwyo, rheoliadau ariannol a rheolau sefydlog cytundebol. Yn ogystal, sefydlwyd Pwyllgor Moeseg Annibynnol newydd ym mis Tachwedd 2015 i ddarparu cyngor ac arweiniad i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar faterion moesegol. Cynhyrchwyd Cyd-gofrestr Risg cyn mis Ionawr 2016 ac adroddwyd arno i Bwyllgor Archwilio a Bwrdd Strategol y Comisiynydd. Ers Ionawr 2016, cynhyrchwyd pum Cofrestr Ansicrwydd diwygiedig yr adroddir arnynt i'r pum Bwrdd 'Efydd' a sefydlwyd gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl.

17 Cyfarfu'r Cydbwyllgor Archwilio'n ffurfiol bedair gwaith yn ystod 2015-16 i ystyried canlyniadau gwaith yr Archwiliad Mewnol a'n gwaith ninnau. Mae'r Cydbwyllgor Archwilio'n parhau i weithio'n dda, gan ddarparu sicrwydd ac argymhellion pwrpasol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, a chynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n crynhoi ei waith.

18 Mae Comisiynwyr a Phrif Gwnstabliaid pedwar Heddlu Cymru'n cwrdd yn rheolaidd fel rhan o Grŵp Plismona Cymru Gyfan i ystyried materion o bwys a chydlynu ymatebion. Datblygodd y grŵp yma Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth safonol ar gyfer gweithio ar y cyd ar draws Cymru, sy'n amlinellu'r trefniadau monitro a chraffu ar gyfer gwaith o'r fath. Yn ogystal, mabwysiadodd y Comisiynydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yma ar draws ei holl drefniadau cydweithrediadol. Cyfarfu Bwrdd Cydweithredol Deheubarth Cymru bedair gwaith hefyd yn 2015-16 i dderbyn diweddariadau ar gynlluniau cydweithredu cyfredol, i ystyried yr achos busnes dros gydweithio posibl i'r dyfodol ac i adolygu effaith ariannol parhaus unrhyw fentrau o'r fath.

19 Ni wnaeth ein gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl am 2015-16 a'u Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ddynodi unrhyw

wendidau o bwys yn y systemau rheoli, a dim ond mân-welliannau a argymhellwyd i'r rheolwyr.

20 Mae rhai meysydd trefniadol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl eu datblygu yn ystod 2016-17. Ynghyd â'r argymhellion o'n hadroddiadau cenedlaethol a lleol ar Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol, bydd angen cydgrynhoi'r trefniadau llywodraethu a rheoli risg diwygiedig, a pharhau â llywodraethu pwrpasol cydweithio wrth i'r Heddlu ystyried trefniadau pellach ar y cyd.

21 Mae adolygiadau a gynhaliwyd gan HMIC yn cefnogi fy nghasgliadau ynghylch trefniadau i sicrhau gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon. Ochr-yn-ochr â'u hadolygiadau o agweddau penodol o weithrediadau'r Heddlu, mae HMIC hefyd yn cynnal adolygiad cyffredinol o effeithiolrwydd, effeithlondeb a chyfreithlondeb yr heddlu (PEEL). Cyhoeddodd HMIC ei asesiad PEEL 2015 ac adolygiad o arweinyddiaeth yr Heddlu ym mis Chwefror 2016, a chyhoeddwyd elfen effeithlondeb asesiad PEEL 2016 ym mis Tachwedd 2016. Mae manylion pellach am fethodoleg PEEL a chasgliadau manwl asesiad PEEL sy'n berthnasol i Heddlu De Cymru i'w cael ar wefan HMIC.

## Fe wnaeth y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl gwrdd â'u cyllidebau refeniw am 2015-16, ac maent yn parhau i ymateb yn gadarnhaol i heriau ariannol sylweddol

22 Adroddodd y Comisiynydd danwariant bychan o £0.2 miliwn yn erbyn cyfanswm cyllidebol o £257.0 miliwn am y flwyddyn. Fe wnaeth trosglwyddiadau o gronfeydd wrth gefn penodedig sicrhau y cynhaliwyd Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol yr Heddlu ar £9.2 miliwn ar 31 Mawrth 2016.

*23* Yn 2016-17, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn parhau i dderbyn adroddiadau rheolaidd gan y Prif Swyddog Cyllid a'r Cyfarwyddwr Cyllid, yn eu tro, ar wariant ac ar y sefyllfa bresennol yn erbyn y gyllideb. Darperir y wybodaeth yma i'r Bwrdd Strategaeth hefyd. Mae pwysau cynyddol i glustnodi arbedion fydd, ynghyd â chynnydd ym mhraesept y Dreth Gyngor, yn cyflenwi am y diffyg ariannol cronedig o £96.0 miliwn a ragwelir hyd at 31 Mawrth 2020 a ddynodwyd yn Adolygiadau Cynhwysfawr o Wariant 2010 a 2013. Sicrhawyd cyfanswm o £39.4 miliwn o arbedion cronnus / lleihad mewn costau erbyn 31 Mawrth 2016, yn cynnwys £7.0 miliwn o arbedion a sicrhawyd yn ystod 2015-16. Rhagwelir y bydd angen sicrhau arbedion pellach o £19.0 miliwn dros y pedair blynedd nesaf hyd at 31 Mawrth 2020, ynghyd â chynnydd ym mhraesept y Dreth Gyngor, er mwyn cyflenwi am y diffyg ariannol cronedig.

24 Fel rhan o'n harchwiliad byddwn yn ystyried effeithlonrwydd y rheolaethau a'r prosesau sydd yn eu lle i'r Comisiynydd a'i staff fonitro cyllidebau a'r sefyllfa ariannol gyffredinol. Ni wnaeth ein gwaith ddynodi unrhyw wendidau o bwys yn y rheolaethau na'r prosesau cyllidebol a ddefnyddiwyd gan reolwyr yn ystod y flwyddyn.

## Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ar ddiogelwch cymunedol ond mae trefniadau gweithio cymhleth a diffyg aliniad rhwng cynlluniau'n creu rhwystrau i welliant

25 Yng Nghynllun Archwilio 2015 i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, fe wnaethom nodi y byddai ein rhaglen waith perfformiad yn canolbwyntio ar adolygiad o effeithlonrwydd trefniadau partneriaeth a chydweithio'r Comisiynydd, gan ganolbwyntio'n bennaf ar weithgareddau Diogelwch Cymunedol. Roedd ein hadolygiad lefel heddlu ardal o ddiogelwch cymunedol yn rhan o astudiaeth genedlaethol, a gynhaliwyd ar lefelau Cymru gyfan (Llywodraeth Cymru), rhanbarthol (ardal Comisiynydd) a lleol (awdurdod lleol / Partneriaeth Diogelwch Cymunedol).

26 Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei adroddiad cenedlaethol ar 18 Hydref 2016 a chyflwynodd gasgliadau ar waith yr holl bartneriaid sydd ynghlwm â rheoli diogelwch cymunedol yng Nghymru. Mae'r adroddiad cenedlaethol, Diogelwch Cymunedol yng Nghymru, ar gael ar ein gwefan.

27 Fe wnaethom hefyd gynhyrchu adroddiad penodol ar gyfer y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn amlinellu ein canfyddiadau lleol ar weithio partneriaeth ar ddiogelwch cymunedol, gan hefyd ystyried y canfyddiadau ehangach o dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr astudiaeth genedlaethol. Yn yr adroddiad lleol hwn daethom i'r casgliad bod **Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru yn darparu arweinyddiaeth effeithlon ar ddiogelwch cymunedol ond bod trefniadau gweithio cymhleth a diffyg aliniad rhwng cynlluniau'n creu rhwystrau i welliant.** Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- bod y Comisiynydd yn darparu arweinyddiaeth effeithlon ar ddiogelwch cymunedol;
- bod gan y Comisiynydd gynlluniau a strategaethau priodol ar gyfer ymdrin â diogelwch cymunedol, fodd bynnag nid yw cynlluniau eraill ar gyfer diogelwch cymunedol yn y rhanbarth wedi eu hintegreiddio na'u alinio'n ddigonol;
- bod y Comisiynydd yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i drosglwyddo eu blaenoriaethau diogelwch cymunedol;
- bod y Comisiynydd yn ymdrechu'n barhaus i wella gwerth am arian mewn diogelwch cymunedol; ac
- bod gan y Comisiynydd systemau rheoli perfformiad priodol ond y gellid gwneud mwy i egluro'r wybodaeth i'r cyhoedd ac i bartneriaid.

28 Rydym yn ymwybodol, ers inni gyflawni ein gwaith maes, bod rhai sefydliadau'n parhau i ddatblygu ac adolygu eu gwaith ar ddiogelwch cymunedol. Rydym yn parhau i herio a chefnogi uwch-swyddogion a staff trwy ein trafodaethau parhaus ar gynlluniau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl am y flwyddyn ac i'r dyfodol.

29 Yn seiliedig ar Ddatganiadau Llywodraethu Blynyddol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, ac ar sail y gwaith a wnaethpwyd fel y disgrifiwyd uchod, rwy'n fodlon ynghylch bodolaeth y trefniadau oedd yn eu lle gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn ystod y flwyddyn i gefnogi cyflawni eu cyfrifoldebau i sicrhau eu bod yn defnyddio adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol. Yn seiliedig ar, ac yn gyfyngedig i, y gwaith a wnaethpwyd gennyf, rwyf wedi codi amrywiol faterion gyda, ac wedi gwneud argymhellion i, wella trefniadau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl.

## Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau y cwblhawyd archwiliad o'r cyfrifon ar 30 Medi 2016

30 Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau y cwblhawyd archwiliad o'r cyfrifon ar gyfer y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar 30 Medi 2016.

31 Amcangyfrifais yng Nghynllun Archwilio 2016 y byddai ffi archwilio 2015-16 yn £106,670. Mae'r gwir ffi archwilio'n unol â'm hamcangyfrif gwreiddiol.

# Atodiad 1

## Meini prawf i asesu trefniadau ar gyfer sicrhau y defnyddir adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol

Arddangosyn 2: Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau

| Trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheolaeth ariannol | Cwestiynau ar drefniadau |
|---|---|
| **Sefydlu amcanion sy'n pennu llunio polisi a phenderfyniadau** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau yn eu lle ar gyfer pennu, adolygu a gweithredu ei amcanion strategol a gweithrediadol? |
| **Ateb anghenion defnyddwyr, rhanddeiliaid a'r boblogaeth leol** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu dulliau cyfathrebu ar gyfer y boblogaeth leol, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill, yn cynnwys partneriaid, ac a oes trefniadau monitro i sicrhau y caiff negeseuon allweddol am wasanaethau eu hystyried? |
| **Monitro ac adolygu perfformiad** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau yn eu lle ar gyfer monitro a chraffu ar berfformiad, i ddynodi amrywiadau posibl yn erbyn amcanion strategol, safonau a thargedau, er mwyn cymryd camau gweithredu ble fo angen ac adrodd yn ôl i'r Comisiynydd / Prif Gwnstabl? |
| **Cydymffurfio â pholisïau sefydledig** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau yn eu lle i gynnal system rheoli fewnol gadarn, yn cynnwys rhai ar gyfer sicrhau cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, a pholisïau a gweithdrefnau mewnol? |
| **Risgiau ariannol a gweithrediadol** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau yn eu lle i reoli eu risgiau busnes sylweddol? |

| Trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheolaeth ariannol | Cwestiynau ar drefniadau |
|---|---|
| **Rheoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau yn eu lle i werthuso a gwella'r gwerth am arian y bydd yn ei sicrhau wrth ddefnyddio ei adnoddau?<br><br>A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod ei wariant yn cyfateb â'r adnoddau sydd ar gael iddo?<br><br>A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau yn eu lle i reoli a monitro perfformiad yn erbyn cyllidebau, cymryd camau cywiro ble fo'n briodol, ac adrodd ar y canlyniadau i uwch-reolwyr a'r Comisiynydd / Prif Gwnstabl? |
| **Safonau ymddygiad priodol ayyb** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau yn eu lle i fonitro a chraffu ar berfformiad, i ddynodi amrywiadau posibl yn erbyn amcanion strategol, safonau a thargedau er mwyn cymryd camau gweithredu ble fo angen?<br><br>A yw'r Comisiynydd Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau yn eu lle sydd wedi eu cynllunio i hybu a sicrhau uniondeb a phriodoldeb wrth gynnal ei fusnes? |

# Atodiad 2

## Risgiau sylweddol wrth archwilio

Mae fy nghynllun Archwilio 2016 yn amlinellu'r risgiau sylweddol wrth archwilio ar gyfer 2015. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn amlinellu'r modd yr aethpwyd i'r afael â nhw fel rhan o'r archwiliad.

Arddangosyn 3: Risgiau sylweddol wrth archwilio

| Risg sylweddol wrth archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaethpwyd a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bodoli ym mhob endid. Oherwydd natur anrhagweladwy'r modd y gallai diystyru o'r fath ddigwydd, caiff hyn ei ystyried yn risg sylweddol [ISA 240.31-33].<br>Yn benodol, mae'r cyfyngiadau ariannol parhaus (a'r gofynion am arbed costau) sy'n codi yn sgîl adolygiadau cynhwysfawr o wariant diweddar Llywodraeth y DU yn cynyddu'r risg o reolwyr yn diystyru rheolaethau. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion dyddiaduron ac addasiadau eraill a wnaethpwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifo am dueddiadau; a<br>• gwerthuso'r sail resymegol am unrhyw drafodion sylweddol sydd y tu hwn i gwrs arferol y busnes. | Ni nodwyd unrhyw faterion o bwys o'n hadolygiad a'n profion ar gofnodion dyddiaduron. Ni nodwyd unrhyw faterion o bwys yn ymwneud ag amcangyfrifon sylweddol eraill yn y cyfrifon. |
| Mae angen i'r datganiadau ariannol gydymffurfio â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Mae rhaid i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a'u staff:<br>• sicrhau bod pob set o gyfrifon yn cael eu paratoi mewn modd priodol sy'n adlewyrchu sylwedd gweithgareddau rheoli dydd-i-ddydd yn ogystal ag amgylchiadau cyfreithiol; a<br>• meddu ar ddealltwriaeth lwyr o ofynion yr IFRS, a dysgu am y gofynion newydd diweddaraf a sicrhau y caiff risgiau a materion o bwys eu clustnodi a'u datrys yn briodol. | Byddwn yn parhau i weithio gydag a chefnogi'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a'u staff i gytuno ar y patrwm cyflwyno mwyaf priodol ar gyfer y ddwy set o ddatganiadau ariannol, a'r datganiadau grŵp.<br>Byddwn hefyd yn cytuno ar welliannau i'r fethodoleg a'r papurau gwaith sy'n cefnogi'r datganiadau ariannol, ble fo angen. | Gwnaethpwyd nifer o newidiadau i'r nodiadau ddaeth gyda'r cyfrifon o ganlyniad i'r gwaith yma ac mae datgeliadau'n unol â gofynion cyfrifo. |

| Risg sylweddol wrth archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaethpwyd a’r canlyniad |
|---|---|---|
| Cynhelir etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ym mis Mai 2016 allai effeithio ar gynhyrchu ac archwilio dogfennau allweddol yn ystod y flwyddyn. | Bydd fy nhîm archwilio’n trafod gyda rheolwyr i ddynodi meysydd o’r broses cynhyrchu cyfrifon allai gael eu heffeithio gan yr etholiadau arfaethedig hyn, a byddwn yn gweithio i sicrhau bod unrhyw darfu posibl cyn lleied â phosibl. | Ni nodwyd unrhyw faterion o bwys. |
| Mae cynlluniau i ailstrwythuro’r Adran Gyllid yn ystod y flwyddyn. | Byddwn yn trafod gyda’r rheolwyr i ddysgu beth yw’r diweddaraf am yr ailstrwythuro, a sut y bydd yn effeithio ar y trefniadau ar gyfer cynhyrchu cyfrifon a’n harchwiliad ariannol ninnau. | Ni nodwyd unrhyw faterion o bwys gyda’r ailstrwythuro ariannol a’n profion ar y costau cysylltiedig. |
| Cafodd nifer o fantolenni darpariaethau ar wahân a datgeliadau rhwymedigaeth ddigwyddiadol eu cynnwys yn natganiadau ariannol 2014-15. Rydym yn ymwybodol y bu datblygiadau o ran nifer o’r mantolenni a’r datgeliadau hyn yn ystod y flwyddyn. | Bydd fy nhîm archwilio’n adolygu pob mantolen darpariaeth o bwys a datgeliadau rhwymedigaeth ddigwyddiadol, ac yn asesu effaith unrhyw ddatblygiadau sy’n digwydd yn ystod y flwyddyn ar y datganiadau ariannol. | Fe wnaethom brofi’r mantolenni darpariaeth a’r datgeliadau rhwymedigaeth ddigwyddiadol ac ni nodwyd unrhyw faterion o bwys. |
| Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddynodi gweithrediadau a reolir ar y cyd sydd angen eu datgelu o dan y Cod a’r rheoliadau archwilio. Bydd angen cydlynu’r gwaith yma gyda heddluoedd eraill Cymru i benderfynu ar ddeilliannau cytûn ac i sicrhau cysondeb ar draws Cymru gyfan. | Bydd fy nhîm archwilio’n trafod gyda rheolwyr ac yn cynnig cymorth gyda’r gwaith yma, ble fo angen, er mwyn sicrhau y caiff yr holl weithrediadau a reolir ar y cyd eu dynodi a’u hadrodd yn gywir yn y datganiadau ariannol. | Gwnaethpwyd addasiadau priodol i ddatganiadau ariannol 2015-16 i adlewyrchu cyfran gyfrifedig y budd o weithrediadau ar y cyd. Mae angen gwaith pellach gyda heddluoedd eraill Cymru i ddarparu’r wybodaeth yma’n gynharach ar gyfer 2016-17. |
| Mae’r Swyddfa Gartref a’r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi darparu nifer o ffrydiau cyllido i’r Comisiynydd yn ystod y flwyddyn. | Byddwn yn profi’r cyllid ychwanegol yma er mwyn dod o hyd i ddogfennau ffynhonnell, cadarnhau eu bod wedi eu dosbarthu’n briodol a sicrhau eu bod wedi eu cofnodi’n gywir yn y cyfrifon. | Ni nodwyd unrhyw faterion o bwys |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru